



19.06.2020

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Diolch am gwblhau ein harolwg dychwelyd i'r ysgol ar-lein neu drwy'r e-bost. Rydym yn disgwyl i lawer o'n disgyblion ddychwelyd i'r ysgol dros yr wythnosau nesaf ac edrychwn ymlaen at eich gweld, os ydych yn dychwelyd.

Yn dilyn yr arolwg, roeddem yn anelu at anfon neges destun gyda dyddiadau gwahoddiad sesiwn 'ailgydio' fore Llun. Roedd y wybodaeth hon yn barod i'w hanfon allan. **Fodd bynnag, heddiw, wnaeth yr awdurdod lleol ddweud wrthym am aros am gadarnhad ynghylch union ddyddiadau ar gyfer gweddill tymor yr haf. Rydyn ni'n disgwyl hyn ddydd Llun. Mae hyn yn golygu y gall y dyddiadau a gyhoeddwn yr wythnos nesaf fod yn wahanol i'r wythnosau dros dro a gyhoeddwyd eisoes. Mae hyn y tu hwnt i'n rheolaeth ac rydym yn gwerthfawrogi y gallai fod yn anghyfleustra i rieni. Byddwn yn anfon dyddiadau allan cyn gynted ag y gallwn (yn hwyr ddydd Llun gobeithio). Rydym yn deall eich rhwystredigaeth â hyn ac yn ddiolchgar am eich amynedd.**

Os dywedoch chi wrthym ni yn yr arolwg y bydd eich plentyn/plant yn dychwelyd a bod hyn yn newid yn ddiweddarach, byddai o gymorth mawr i ni pe gallech anfon e-bost i'r ysgol i'n hysbysu ynghylch hyn os gwelwch yn dda. Os ydych eisoes wedi dweud wrthym yn yr arolwg neu drwy'r e-bost na fydd eich plentyn/plant yn dychwelyd, byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r amserlen newydd.

Bydd sesiynau ailgydio eich plentyn yn brofiad mor gadarnhaol â phosibl ac mae aelodau staff yr ysgol wedi cynllunio gweithgareddau diddorol ac amrywiol ar gyfer y ddwy sesiwn i bob dosbarth. Ar ddydd Llun, byddwn yn cyhoeddi manylion pellach am ein trefniadau dychwelyd-i'r-ysgol ar wefan yr ysgol a bydd hyn yn ateb llawer o'r cwestiynau yr ydym eisoes wedi eu cael. Gofynnwn i chi rannu'r trefniadau hyn gyda'ch plentyn/plant. Yn hwyrach yn yr wythnos, rydym hefyd yn gobeithio rhannu fideo byr gyda chi i'w wyllo gyda'ch plentyn/plant a fydd o gymorth i esbonio rhai o'r trefniadau newydd ar gyfer safle'r ysgol. Bydd y disgyblion, wrth gwrs, yn cael croeso cynnes yn yr ysgol yn ystod eu sesiynau ailgydio a bydd aelodau staff yr ysgol yn trafod manylion y trefniadau newydd gyda'r plant ar ddechrau pob diwrnod ysgol.

Rydym wedi cael ychydig o ymholiadau ynglŷn â lleoedd hwb yn yr ysgol. Dylai rhieni/gofalwyr sy'n bodloni'r diffiniad o weithiwr allweddol, ac sydd am wneud cais am le, wneud hynny ar-lein trwy fynd at y wefan [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk). Sylwer mai nifer cyfyngedig o leoedd sydd yn yr hwb ac mai ar gyfer gofal plant mewn argyfwng yn unig y maent, pan fydd hi'n ofynnol i chi fel gweithiwr allweddol fynychu eich gweithle a bod neb yn y cartref i ofalu am eich plentyn/plant. Cyfyngwch eich ceisiadau ar gyfer yr hwb i sifftiau angenrheidiol yn unig os gwelwch yn dda, er mwyn galluogi'r ysgol i ddarparu ar gyfer yr holl ymgeiswyr y mae angen gofal plant mewn argyfwng arnynt. Os yw eich angen am le yn yr hwb yn cyd-daro â'r diwrnod y mae eich plentyn wedi ei wahodd i'r ysgol, nodwch fod canllawiau gwahanu awdurdodau lleol yn atal mynediad at ddarpariaeth gofal ar yr un diwrnod. Felly, Os yw eich angen am le yn yr hwb yn cyd-daro â'r diwrnod y mae eich plentyn wedi ei wahodd i'r ysgol, a wnewch chi ddweud wrthym os gwelwch yn dda pa un a fydd eich plentyn yn mynychu, yr hwb ynteu'r sesiwn dosbarth. Os nad yw eich amgylchiadau unigol yn caniatáu hyn, cysylltwch â ni i drafod pa gymorth y gallwn ei gynnig i chi gan ein bod yn amlwg eisiau i bob plentyn gael cyfle i gael mynediad i'w sesiynau 'ailgydio'.

Diolch eto am eich amynedd a'ch cydweithrediad mewn sefyllfa sy'n newid drwy'r amser. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn dilyn diweddariad dydd Llun, cysylltwch â ni'n ddiymdroi a bydd staff yr ysgol yn ymateb cyn gynted ag y bo modd. Cyfeiriad e-bost yr ysgol yw [admin.broogwr@bridgend.gov.uk](mailto:admin.broogwr@bridgend.gov.uk) ac mae'n cael ei fonitro'n rheolaidd.

Yn gywir,

Sharon Jayne

Pennaeth

Nik Dart

Cadeirydd y Llywodraethwyr